



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bro Cinmeirch
Llanrhaedr Y.C.
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 4NL**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Bro Cinmeirch rhwng Llanrhaeadr a Phentref Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, rhyw dair milltir o dref Dinbych. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal leol ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Derbynnir plant i ddosbarth meithrin yr ysgol yn rhan amser yn y tymor yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed ac yn amser llawn i'r dosbarth derbyn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair. Yn ystod yr arolygiad, roedd 69 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol. Fe'u haddysgir gan bedwar o athrawon amser llawn ac un athrawes ran amser.

Addysgir yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae tua 60% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae naw o ddisgyblion (11%) wedi eu cofnodi gan yr ysgol fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran o ddisgyblion (3.4%) sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol yn ddi-dâl yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir Ddinbych a Chymru.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Medi 2008.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Cinmeirch yw £4,661. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £9,248 a'r isafswm yw £2,719. Ysgol Bro Cinmeirch yw'r 17eg allan o'r 52 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o ran cyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Bro Cinmeirch yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- ethos ardderchog sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at bresenoldeb a safonau ymddygiad uchel, ac ymdeimlad o falchder staff a disgyblion yn eu Cymreictod;
- cynllunio, addysgu ac asesu yn gadarn; a bod
- yr holl staff yn cydweithio'n hwylus ac effeithiol mewn ffordd sy'n dylanwadu'n bositif ar gyflawniad y disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a'i bod yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff a'r disgyblion, a'r llywodraethwyr;
- yr ysgol yn adnabod ei pherfformiad ei hun yn dda; ac yn
- cydweithio'n rhagorol gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth.

Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai'r ysgol:

- A1 sicrhau cynnydd pellach yng nghyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch;
- A2 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol; a
- A3 datblygu ymhellach ddealltwriaeth disgyblion o beth sydd angen iddynt wneud i wella eu gwaith eu hunain.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i lunio astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yn y ddau gyfnod allweddol yn dda o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol a pherfformiad ysgolion tebyg.

Dros y pedair blynedd diwethaf, cyflawnodd bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 1 y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) ym mhob pwnc craidd. Dros yr un cyfnod, mae'r niferoedd sy'n cyflawni lefel 3 neu uwch yng nghyfnod allweddol 1 wedi amrywio. Yn gyffredinol, mae'r niferoedd yn cymharu'n dda gyda'r teulu yn y Gymraeg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (lefel 4) yn tueddu i fod yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru. Cyflawnodd bron pob disgybl y lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn ystod y cyfnod hwn. Cyflawnodd y rhan fwyaf y lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn 2011, roedd canran y disgyblion yn cyflawni lefel 5 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc craidd. Bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn amrywio dros y tair blynedd flaenorol.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u gallu a'u perfformiad blaenorol. Gwelir cynnydd da hefyd yng nghyflawniad disgyblion yn eu gwaith, eu llyfrau ac mewn gwersi. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn sawl pwnc. Mae'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydu ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn unol â'u hoed a gallu. Nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y dylent. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng cyflawniad merched a bechgyn.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da iawn yn eu defnydd o'r Gymraeg o'r amser maent yn dechrau yn yr ysgol. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio'r iaith yn rhugl ac effeithiol ar bob math o achlysur ffurfiol ac anffurfiol. Gallant drin a thrafod amrywiol bynciau yn effeithiol iawn gan ddefnyddio geirfa eang.

Mae rhan fwyaf y disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu, ac maent yn gwneud defnydd llawn o'u medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2 mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfleu eu meddyliau a'u teimladau yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gallu egluro'r hyn y maent yn ei ddysgu ac yn cyfrannu sylwadau meddylgar yn y dosbarth ac mewn trafodaeth grŵp. Mae bron pob un yn medru darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant da yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio eu medrau yn hyderus wrth ymchwilio a chofnodi eu gwaith mewn sawl pwnc. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn

medru ysgrifennu'n estynedig i safon uchel, gan amrywio arddull mewn gwahanol gyd-destunau.

Lles: Da

Mae'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Dangosant ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd a byw yn iach. Maent yn bwyta'n iachus yn yr ysgol gyda llawer yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau corfforol yn ystod a thu allan i weithgareddau ysgol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn gweithio'n galed ac yn cyfrannu'n dda mewn gwersi. Cydweithiant yn effeithiol o dan arweiniad. Serch hynny, parhau i ddatblygu mae eu medrau i weithio'n annibynnol. Mae ymddygiad yr holl ddisgyblion yn dda iawn o fewn y dosbarthiadau ac yn ystod amser egwyl a chinio. Dengys y disgyblion barch a gofal am ei gilydd, ac maent yn perthnasu'n dda â'r staff i gyd. Mae'r cyfraddau presenoldeb o bron 96% yn arwyddocaol uwch nag ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol. Ysgwydda llawer o ddisgyblion gyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol, ac maent yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn yr ysgol gyda'r gymuned leol. Mae'r cynghorau ysgol ac eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau, a chaiff safbwyntiau disgyblion eu clywed yn gyson.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Cydweithia'r athrawon yn effeithiol i gynllunio cwricwlwm sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad eang ac amrywiol o brofiadau cyfoethog sydd, ar y cyfan, yn diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol.

Caiff gwaith wythnosol a gwersi unigol eu cynllunio'n glir ac yn drwyadl. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau. Er bod athrawon yn paratoi gwaith gwahanol i roi her briodol i'r rhan fwyaf o'r disgyblion ac i'r disgyblion llai galluog, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion uwch eu gallu i ymestyn eu medrau ymhellach.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau allgyrsiol ac yn hyrwyddo gweithgareddau mentergarwch yn dda.

Rhoddir lle blaenllaw yn y cynllunio i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhif, TGCh a medrau meddwl. O ganlyniad, caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau trwy astudiaethau trawsgwricwlaidd gyda phwyslais cryf ar ddatblygu llythrennedd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n frwd tuag at y Faner Werdd. Defnyddir y gofod allanol yn ddychmygol i gyfrannu'n at ymwybyddiaeth disgyblion o faterion eco. Mae'r cyngor eco yn weithredol iawn wrth oruchwylio gweithgareddau ailgylchu ac arbed ynni. Cyfoethogir gwybodaeth y disgyblion am ddinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol iawn drwy gymryd rhan yng nghynllun Comeniws gydag ysgolion yn Sbaen, Gwlad Belg,

yr Eidal a Sweden. Mae'r ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth am godi llawer o arian at elusennau.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn greiddiol ac yn treiddio drwy holl weithgareddau'r ysgol gyda'r disgyblion yn elwa o ymweliadau gan awduron, beirdd, ac artistiaid preswyl eraill. Rhoddir sylw da iawn i astudio'r amgylchedd lleol, hanes, a llên gwerin yr ardal yng nghyd-destun diwylliant Cymru.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio gwersi yn dda, a'u trefnu'n effeithiol gydag amcanion dysgu clir, adnoddau o ansawdd da a phwyslais priodol ar y medrau allweddol.

Ar y cyfan, mae'r cyflwyniadau yn fyrlymus, gyda defnydd da o'r llais a chwestiynu amrywiol a phwrpasol. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r cyflwyniad yn rhy hir a heb ffocysu'n ddigonol ar esboniad clir o'r dasg. Yn yr arfer orau, darperir gwaith sydd yn gwbl addas i ddisgyblion o wahanol allu, a rhoddir cefnogaeth berthnasol i ddisgyblion llai galluog. Fodd bynnag ar adegau, nid yw'r gweithgareddau dysgu'n ymestyn disgyblion o allu uwch yn llawn, ac nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol.

Mae athrawon a chymorthyddion dysgu'n cydweithio'n effeithiol, ac mae cyfathrebu da rhwng oedolion a phlant. Mae gweithdrefnau effeithiol yn eu lle i asesu cynnydd disgyblion ac i adrodd i rieni. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n ofalus gyda sylwadau adeiladol. Mae strategaethau amrywiol asesu ar gyfer dysgu ar waith ar draws yr ysgol. Mae asesu disgyblion o'u gwaith eu hunain yn datblygu drwy'r ysgol. Yn yr arfer orau, mae cyfleoedd da i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd ac mae disgyblion yn gosod eu targedau eu hunain gyda chymorth yr athrawon. Serch hynny, yn aml nid yw disgyblion yn deall yn glir yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gyrraedd y targedau hynny. Defnyddia'r athrawon y wybodaeth asesu yn bwrpasol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen.

Rhydd adroddiadau tymhorol i rieni farnau clir am gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ethos cynhwysol yr ysgol yn creu awyrgylch teuluol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae ystod lawn o bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer hybu byw yn iach.

Mae'r profiadau dysgu yn datblygu disgyblion yn ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol yn effeithiol iawn. Rhydd sesiynau cyd-addoli gyfleoedd cyson i ddisgyblion i fyfrio'n dawel.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar ac mae'r cydlynnydd a'r cymorthyddion yn cynllunio'n ofalus yn ôl gofynion y cod ymarfer i ddarparu cefnogaeth addas i'r disgyblion. Gwneir defnydd da o gyngor arbennig ystod eang o

asiantaethau amrywiol yn ôl y gofyn. Mae'r ysgol yn sicrhau bod gan y rhieni ran weithredol yn y broses o adolygu cynlluniau addysg unigol.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, hapus a hollgynhwysol. Nodwedd eithriadol yw'r ethos teuluol sy'n seiliedig ar weithredu polisiau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Cyfranna'r awyrgylch yn helaeth at lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad ar draws yr ysgol. Mae awyrgylch dysgu cadarnhaol yn bodoli. Hyrwyddir ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy weithdrefnau megis casglu tuag at elusennau, agweddau rhyngwladol, themau cwricwlaidd ac amser cylch. Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw balchder y staff a'r disgyblion yn eu Cymreictod. Caiff hyn ddylanwad arwyddocaol ar ddatblygiad y Gymraeg.

Mae'r polisi cyfle cyfartal yn cael ei weithredu'n hynod o effeithiol. Mae pob rhan o'r adeilad yn gwbl addas ar gyfer disgyblion anabl.

Mae'r amgylchedd ddysgu o ansawdd uchel iawn. Ceir ystod eang ac amrywiol o adnoddau priodol. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau allanol wedi eu datblygu'n rhagorol ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf i hybu deilliannau da ar gyfer y disgyblion. Mae arddangosfeydd helaeth mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yn dathlu gwaith a chyflawniadau disgyblion, ac yn destun balchder iddynt. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw i safon uchel iawn. Mae gweithdrefnau effeithiol iawn ar waith ar gyfer rheoli'r adeilad a'r safle er budd yr ysgol a'r gymuned.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a rennir yn effeithiol gyda'r llywodraethwyr, yr holl staff a'r rhieni. Mae gan reolwyr ac athrawon ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion ac o'r hyn maent yn gallu cyflawni. Mae systemau rheoli perfformiad wedi cryfhau ymrwymiad y staff i helpu'r ysgol gyrraedd y targedau sy'n cael eu rhestru yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Cefnoga'r corff llywodraethol waith yr ysgol yn effeithiol. Mae'n chwarae rhan bwysig wrth benderfynu blaenoriaethau ac adolygu cynllun datblygu'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda. Maent yn archwilio data perfformiad disgyblion ac yn derbyn adroddiad manwl gan y pennaeth bob tymor. Mae'r corff llywodraethol hefyd yn derbyn cyflwyniadau gan arweinwyr pwnc a disgyblion. Maent yn trafod yn fanwl yr adroddiad hunanarfarnu yn rheolaidd.

Mae blaenoriaethau'r ysgol yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol gyda phwyslais clir ar ddatblygu llythrennedd a medrau meddwl. Mae hyfforddiant staff ac ymrwymiad yr ysgol mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn ffocysu yn gryf ar y blaenoriaethau hyn. Mae pwyslais cryf hefyd ar ddatblygu ymrwymiad y disgyblion i faterion ecolegol, datblygiad cynaliadwy, dinasyddiaeth byd eang, ac i fyw yn iach a diogel. Mae'r strategaethau y mae'r ysgol yn eu dilyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn yr agweddau hyn.

Gwella ansawdd: Da

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn cynnig darlun clir a chywir o ansawdd yr ysgol, wedi ei seilio ar arfarniad dilys o gyflawniadau'r disgyblion. Mae'n defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth, yn cynnwys arfarniadau pynciol yr arweinwyr pwnc, ynghyd â safbwyntiau llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae amserlen gytunedig, a chanllawiau clir i adolygiadau pynciau. Mae'r adolygiad o'r Gymraeg o safon uchel.

Mae'r broses hunanarfarnu wedi adnabod meysydd addas ar gyfer gwella, gyda chyswllt clir â blaenoriaethau a strategaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gwelliannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ysgol wedi delio yn llwyddiannus gydag argymhellion yr adroddiad diwethaf.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda fel cymuned ddysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn datblygu'n dda iawn. Paratoir ar y cyd ag ysgolion eraill ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd leol wedi cyd-gymedroli asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2. Mae cymuned ddysgu broffesiynol arall yn dyfeisio gweithgareddau ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at ansawdd y ddarpariaeth ac ar y safonau y mae'r disgyblion yn eu cyflawni.

Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned yn gryf iawn gyda'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i argymhelliad yr arolygiad diwethaf. Darpara'r ysgol ystod dda iawn o wybodaeth i rieni. Er enghraifft, mae rhieni yn derbyn tri adroddiad ysgrifenedig y flwyddyn ar gynnydd eu plant. Mae hwn yn arf effeithiol iawn i gryfhau'r bartneriaeth rhwng cartref ac ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae partneriaeth ragorol gyda'r Cylch Meithrin yn sicrhau cyd-ddefnydd effeithiol iawn o adnoddau. Mae hyn yn cryfhau'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned, yn sicrhau gofal gydol dydd ac yn paratoi'r plant yn dda iawn ar gyfer eu cyfnod yn yr ysgol.

Arfer sy'n arwain y sector yw'r strategaethau mae'r ysgol wedi defnyddio i wella'r Gymraeg. Mae'r proffil o waith ysgrifenedig baratowyd yn arf rhagorol i godi safonau cyflawniad disgyblion. Wrth weithio i wella safonau llythrennedd disgyblion, mae'r pennaeth wedi cydweithio'n agos iawn gyda swyddogion yr awdurdod lleol i gynnig hyfforddiant i ysgolion eraill. Mae cydweithrediad effeithiol iawn gyda sawl grŵp o ysgolion, yn cynnwys y clwstwr lleol a grwpiau o ysgolion bach neu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae athrawon yn elwa o weld arfer da mewn ysgolion eraill, wrth rannu'r gwaith o gynllunio gwaith thematig ac adnoddau, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi sy'n cyd-fynd â'u hanghenion.

Mae'r bartneriaeth gyda'r gwasanaeth llyfrgell yn symbylu diddordeb disgyblion mwy galluog mewn darllen ac ysgrifennu.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr athrawon gymwysterau priodol. Mynychant gyrsiau hyfforddi sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau datblygiad yr ysgol. Cânt gefnogaeth dda gan systemau rheoli perfformiad yr ysgol. Gwneir defnydd llawn o arbenigedd yr holl staff. Mae'r ysgol yn manteisio yn llawn ar gyfleusterau'r adeilad ac o'r meysydd chwarae.

Mae'r athrawon a disgyblion yn defnyddio ystod eang o adnoddau yn effeithiol er mwyn cefnogi addysgu a dysgu.

Mae'r llywodraethwyr yn monitro cyllid yr ysgol yn ofalus. Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Cyfnod allweddol 1

Dros y pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion saith mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth cyflawnodd pob disgybl y lefel disgwyliedig, sef lefel 2, mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Roedd perfformiad yr ysgol yn y dangosydd pynciau craidd yn y 50% uchaf o ysgolion sy'n debyg o ran cyfran disgyblion â'r hawl i ginio am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf ac yn y 25% uchaf am ddwy flynedd. Bu'r perfformiad yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% uchaf mewn tair o'r blynyddoedd yma.

Roedd y niferoedd yn cyflawni lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 3 neu uwch, yn amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Yn gyffredinol roedd yn cymharu'n dda gyda'r teulu yn y Gymraeg a mathemateg ond yn is mewn gwyddoniaeth dros y cyfnod hwn. Ni chyflawnodd unrhyw blentyn lefel uwch na'r disgwyl mewn gwyddoniaeth dros y tair blynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Nid oes patrwm arwyddocaol rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y lefel disgwyliedig ond mae tueddiad o fwy o ferched yn cyflawni'r lefel uwch yn y Gymraeg.

Cyfnod allweddol 2

Yng nghyfnod allweddol 2, mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, roedd perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion unarddeg mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd), yn uwch na chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu a chyfartaledd Cymru.

Cyflawnodd pob disgybl y lefel disgwyliedig, sef lefel 4, mewn mathemateg a gwyddoniaeth mewn tair o'r blynyddoedd hyn. Cyflawnodd pob plentyn y lefel disgwyliedig yn y Saesneg mewn dwy o'r blynyddoedd hyn. Yn y Gymraeg bu'r duedd yn fwy amrywiol. Er bod perfformiad disgyblion yn tueddu i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol dim ond mewn dwy flynedd y bu'n uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae'r canlyniadau yn y dangosydd pwnc craidd mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf wedi bod ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o safbwynt cyfran y plant a'r hawl i ginio am ddim.

Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, bu yn y 25% uchaf o ysgolion mewn tair blynedd ac yn Saesneg mewn dwy flynedd dros y cyfnod yma. Bu perfformiad yn y Gymraeg yn y 50% isaf mewn tair o'r blynyddoedd yma.

Yn 2011, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 (lefel 5 neu'n uwch) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu ym mhob pwnc craidd. Bu'r niferoedd yn cyflawni'r lefelau uwch yn amrywio dros y tair blynedd flaenorol.

Nid oes gwahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Nid oes patrwm arwyddocaol o ran gwahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn ar y lefel ddisgwyliedig ond mae mwy o ferched yn tueddu i gyflawni'r lefel uwch.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rhiant/gofalwyr

Mae bron pob un rhiant/gofalwr yn cytuno fod yr ysgol yn:

- cael ei rhedeg yn dda;
- darparu amrywiaeth dda o weithgareddau;
- helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- rhoi cymorth ychwanegol priodol mewn; perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Mae pob un yn cytuno fod eu plentyn yn:

- hoffi'r ysgol;
- cael cymorth i ymgartrefu'n dda wrth ddechrau yn yr ysgol;
- gwneud cynnydd da;
- cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- ddiogel yn yr ysgol; a
- cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae pob un yn cytuno fod:

- yr addysgu'n dda;
- y disgyblion yn ymddwyn yn dda;
- staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau; a
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.

Mae bron pob un yn cytuno fod:

- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

Mae bron pob un yn cytuno eu bod yn:

- cael gwybodaeth gyson am gynnydd ei blentyn;
- teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ymatebion i'r holiadur i ddisgyblion

Mae'r holl ddisgyblion yn cytuno:

- eu bod teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, fod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os yw'n poeni neu ofidio;
- eu bod yn dysgu sut i aros yn iach ac yn cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae bron pob un disgybl yn cytuno fod:

- gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

Er bod bron rhan fwyaf y disgyblion yn cytuno fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith, mae lleiafrif yn teimlo nad yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Goronwy Morris	Arolygydd Cofnodol
Rhiannon Harris	Arolygydd Tîm
Jeremy Turner	Arolygydd Lleyg
Garth Higginbotham	Arolygydd Cymheiriaid
Gwennol Ellis	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11